| CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU | | NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES |
|---|---|---|
| OFFERYNNAU<br><br>STATUDOL | | S T A T U T O R Y<br><br>I N S T R U M E N T S |
| 2000 Rhif (Cy. ) | | 2000 No. (W. ) |
| DATBLYGU ECONOMAIDD, CYMRU | | ECONOMIC DEVELOPMENT, WALES |
| Gorchymyn Awdurdod Datblygu Cymru (Terfyn Ariannol) 2000 | | The Welsh Development Agency (Financial Limit) Order 2000 |
| | | |
| | | |
| **NODYN ESBONIADOL**<br><br>*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*<br><br>Corff Cyhoeddus gweithredol a Noddir gan y Cynulliad yw Awdurdod Datblygu Cymru. Cafodd ei sefydlu gan Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 er mwyn hybu datblygiad economaidd a chymdeithasol Cymru, hyrwyddo effeithlonrwydd mewn busnes a chystadleurwydd rhyngwladol yng Nghymru a hybu gwelliannau yn amgylchedd Cymru.<br><br>Mae isadran 18(3) o Ddeddf 1975 yn pennu terfyn ariannol yr Awdurdod, ac yn darparu i'r terfyn hwnnw gael ei gynyddu drwy gyfrwng gorchymyn. Mae'r Gorchymyn hwn yn cynyddu'r terfyn o £1,350 miliwn i £2,000 miliwn. | | **EXPLANATORY NOTE**<br><br>*(This note does not form part of the Order)*<br><br>The Welsh Development Agency is an executive Assembly Sponsored Public Body which was established by the Welsh Development Agency Act 1975 for the purposes of furthering the economic and social development of Wales, promoting efficiency in business and international competitiveness in Wales and furthering the improvement of the environment in Wales.<br><br>Subsection 18(3) of the 1975 Act specifies the Agency's financial limit, and provides for that limit to be increased by order. This Order increases the limit from £1,350 million to £2,000 million. |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| **OFFERYNNAU STATUDOL** | | **S T A T U T O R Y I N S T R U M E N T S** |
| **2000 Rhif (Cy. )** | | **2000 No. (W. )** |
| **DATBLYGU ECONOMAIDD, CYMRU** | | **ECONOMIC DEVELOPMENT, WALES** |
| **Gorchymyn Awdurdod Datblygu Cymru (Terfyn Ariannol) 2000** | | **The Welsh Development Agency (Financial Limit) Order 2000** |
| *Wedi'i wneud 2000*<br>*Yn dod i rym 1 Ebrill 2000* | | *Made 2000*<br>*Coming into force 1st April 2000* |

| | | |
|---|---|---|
| Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y per a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 18(3) o Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975[(a)], sydd bellach wedi'i freinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru [(b)]: | | The National Assembly for Wales makes the following Order in exercise of the power conferred on the Secretary of State by section 18(3) of the Welsh Development Agency Act 1975[(a)], which is now vested in it [(b)]: |
| **Enwi a chychwyn** | | **Citation and commencement** |
| **1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Awdurdod Datblygu Cymru (Terfyn Ariannol) 2000 a daw i rym ar 1 Ebrill 2000. | | **1.** This Order may be cited as the Welsh Development Agency (Financial Limit) Order 2000 and shall come into force on 1st April 2000. |
| **Cynnydd yn y terfyn ariannol** | | **Increase in financial limit** |
| **2.** At ddibenion adran 18(3) o Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 (cyllid yr Awdurdod) pennir y terfyn yn £2,000 miliwn. | | **2**. For the purposes of section 18(3) of the Welsh Development Agency Act 1975 (finances of the Agency) the limit is specified as £2,000 million. |
| Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998[(c)].<br><br>] 2000<br><br>Llywydd<br><br>y Cynulliad Cenedlaethol | | Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998[(c)].<br><br>[ ] 2000<br><br>The Presiding Officer<br><br>of the National Assembly |
| | | |